**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Dilynodd y cyfarfod y cyfarfod blynyddol a gynhelir am 7.00 y.h. ar Nos Lun 19.05.2025 yn Neuadd Cynwyl Elfed - dechreuodd y cyfarfod am 7:55 *y.h.*
**Yn Bresennol:** Cllr.Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Demle Phillips, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** dim

**11. Datgelu Buddianau Personol:**
Dim.

**12. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 22.04.2025**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22.04.2025 yn gopi cywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Robin Bowen ac eiliwyd gan y Cyng. Elfed Davies.

**13. Materion yn Codi o'r Cofnodion**
a. Materion Priffyrdd: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
b. Cyfleusterau Cyhoeddus -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
c. Diffibriliwr Cwmduad - Mae'r swm o £662.72 a dderbyniwyd trwy law y Cyng. Eifion Jones ym mis Ebrill wedi'i dalu mewn i Cyfrif. y Diffibriliwr. Clerk i anfon llythyron diolch i Mrs. Joyce Bowen, Mr. Peter Watson a Mr. Geoff Goodbourn.
Penderynodd y Cyngor bod y Clerc a'r Cadeirydd i fynd ymlaen i wneud ymholiadau ac i brynu'r diffibriliwr sy'n addas ar gyfer Cwmduad. Mae'r Cyngor i dalu'r gwahaniaeth Balans yng nghyfrif y Diffibriliwr ar 30.4.25 , heb gynnwys y £662.52 a dderbyniwyd = £1,533.23. Mae angen newid 3 set o padiau electrod cyn ddiwedd Mehefin - pris £162. Penderfynodd y Cyngor bod rhaid gwneud ddarpariaeth ar gyfer nwyddau traul i'r diffibrilwir yn yr ardal wrth paratoi'r cyllid ar ran y Cyngor yn flynyddol.

**14. Gohebiaeth.**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*

- Cyfarfod Misol PCSO Sylvia Davies-Morris 30.05.25 am 2-2:30 y.p.-Cyng. Amy Evans i fynychu.
- Un Llais Cymru - Cynhadledd Arfer Arloesol 2.7.25 £67 y cynrychiolydd-nodir-bydd Cyng.B.D. yn rhoi gwybod i'r clerc os all fynychu.
- Gorchymun Terfyn Cyflymder 40 mya Sir Gaerfyrddin 2025-nodir.
- G.Ioan-cais am grant ar gyfer Capel Blaen y Coed. Penderfynwyd i ohirio'r mater hyd nes Ionawr/Chwefror 2026 pan bydd ceisiadau A.137 am y flwyddyn ariannol yn cael eu trafod. Clerk i roi gwybod i Gareth Ioan.
- Un Llais Cymru-Gwella'r broses o weinyddu a gorfodi'r Dreth Cyngor yng Nghymru - nodir.
- Un Llais Cymru- E-bost 7 Ebrill yn gwahodd cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 01/10/25 - i'w gyflwyno erbyn 20 Mehefin 2025. Fe wnaeth y Cyng. Cai Phillips cynnig ym mis Medi 2024 ar ôl i'r Cyngor nodi bod problem yn lleol lle roedd enwau Cymraeg gwreiddiol eiddo wedi cael eu newid heb ymgynghoriad. - yn dilyn trafodaeth pellach ynghylch geiriad y cynnig, cynigiodd y Cyng. Delme Phillips fod y cynnig diwygiedig yn cael ei gyflwyno.
- " CYNNIG AR GYFER CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2025 UN LLAIS CYMRU

Nodai'r gynhadledd bod problem enbd *gyda newid enwau tai cynhenid Cymraeg i Saesneg ar draws Cymru. Mae enwau Cymraeg yn rhan bwysig o ein hunaniaeth ddiwylliannol ac ein hanes.y*

*Galwai'r gynhadledd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddf er mwyn diogelu enwau Cymraeg. Dylai hyn cynnwys ymgynghoriad statudol i Gynghorau Cymuned a Thref cyn bod enw tŷ yn newid.*

*Galwai'r gynhadledd ar Cynghorau Sir i gyflwyno cynllun tebyg i Gyngor Sir Ceredigion ble danfonir pecyn i berchennog tŷ gan 'annog ac ailystyried' cyn newid enw tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg nac unrhyw iaith arall." .*

Eiliwyd hyn gan y Cyng. Bryan Davies. Cytunodd y Cyng. B.D. fynychu'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Hydref ac i annerch y gynhadledd ar ran y Cyngor ynghylch y cynnig arfaethedig os yn cael ei wahodd i wneud hynny.

- **15.Cynllunio**

**PL/09245-**Adeiladu annedd and garej - Plot 2, Cae Cochen, Cynwyl Elfed SA33 6SP
Nodir mae enw'r darn o dir a gyfeirir ato yw plot 2, Maes Cochen. Mae'r clerc i dynnu sylw Cyngor Sir Gaerfyrddin at hyn. Penderfynodd y Cyngor gefnogi cais cynllunio PL/09245.
**PL/09273-** Estyniadau ac addasiadau arfaethedig i adeilad amaethyddol a gymeradwywyd yn flaenorol (PL/08119) - Greenland, Caerfyrddin SA33 6EP. Penderfynodd y Cyngor gefnogi cais cynllunio PL/09273.

**16. Taliadau a Chyllid**

(a) Taliadau a Chyllid

- ME Davies Cyflog Clerc 04/25 - £ 310.10
- Maria Thomas Magic Mops Taliad 31/03/25-27/04/25 dyddiad 27.4.25 £ 172.50
- E.D.F. Trydan - Debyd Uniongyrchol -01.04.25-30.04.25 £ 43.55
- Dŵr Cymru 18.10.24-25.04.25 £ 461.73 darlleniad wedi'i gymryd ar 25.4.25
- Yswiriant Zurich £ 525.83

Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r taliadau uchod.

- £7,359.20 - Taliad cyntaf o praesept 2025/26 wedi'i dderbyn i'r cyfrif cyfredol ar 30/04.25.

- .
- ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU -

Mae'r llyfrau yn nwylo'r Ymchwiliwr Mewnol.

**17. Materion Priffyrdd:**

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 19.05.2025***

a) Penrhiwcrynfryn - tipio anghyfreithlon.
b) Man sefyll o flaen Ger y Duad - Bagiau ysbwriel yn cael eu gadael o amgylch y bin.
c) Swyddfa Bost/Siop Cynwyl Elfed - Mater mewn llaw i osod man llwytho o flaen y siop yn ystod oriau agor.
d) Rhiw Pannau - Mae lori gymysgu sment wedi colli rhan o'i llwyth ac mae'r sment wedi ei adael ar wyneb y ffordd.
e) 2 Bin - mae angen rhoi'r 2 bin a godwyd o'r pentref yn ôl.
f) Llwybr Cerdded ar bwys yr Eglwys - mae coeden fawr wedi cwympo yn groes i'r llwybr..

**18. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau— Pwyllgor Cyfleusterau Cyhoeddus Cynwyl Elfed.**

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Roedd y Cyng. Elfed Davies wedi bod i gael golwg ar y cyfleusterau cyhoeddus a roedd i weld yn cael ei gadw'n dda.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:** -
- Clerk wedi derbyn cynabyddiaeth oddi wrth Cyngor Sir Gaerfyrddin ac yn aros am ymateb i'r cwestion a oes gan y Cyngor Sir unrhyw gofnod neu ddogfen sy'n berthnasol i Cae Chwarae Bro Elfed.
- Dywedodd y Cyng. A.Evans wrth y cyfarfod bod y cais am grant i wella'r parc wedi ei ddanfon a mae'r pwyllgor yn aros am ymateb. Yn y cyfamser bydd diwrnod Gwirfoddolwyr Cymunedol i'w drefnu ar y penwythnos cyn bo hir i lanhau a tacluso'r parc. Y dyddiad i'w drefnu.

**19. Unrhyw Mater Arall**

- Bydd cyfarfod Pwyllgor y Neuadd ar 11 Mehefin am 8 o'r gloch. Anogwyd holl aelodau'r Cyngor i fynychu gan y Cyng. Elfed Davies.
- *Hyfforddi -* Mae pris cyrsiau Un Llais Cymru yn £42 y cwrs am aelodau Un Llais Cymru. Mae'r clerc wedi cysylltu a U.Ll.C. sydd nawr wedi cael gwybod oddi wrth LLywodraeth Cymru bod bwrsari ar gael eleni eto fel yn 2024. Gall Cynghorwyr ceisio am leoedd hyfforddi weminar am ddim: sef modiwl 3,4,6,9,21 a 24.
- Clerc i drefnu i'r Cyng. Robin Bowen a'r Cyng. Julian Evans i fynychu hyfforddiant -

- Deall y Gyfraith Modiwl 4 ac Aled Jones - Gynefino i Gynghorwyr Newydd a'r Cod Ymddygiad Modiwl 9.

- Tynnodd y Cadeirydd sylw'r cyfarfod at wefan newydd Un Llais Cymru, ac hefyd e-fwletin rhif 3, dderbyniwyd yn ystod Mai sydd yn rhoi ddolenni defnyddiol a gwybodaeth ynghylch hyfforddiant ac hefyd Nodiadau Datblygu Ymarfer.
- Nodiadau Datblygu Ymarfer - Un Llais Cymru

**20. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cyfarfod nesaf ar: **Nos Lun, 16 Mehefin 2025**
am**: 7:30** yr hwyr**.**

.

Daeth y cyfarfod i ben 21.15 awr.

……………………………………………………………
Cadeirydd.
……………………………………………………………
Dyddiad.